## E. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu hefyd wedi'i gynnwys yn un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Bydd y Bil yn cyflwyno cyfundrefn diogelwch adeiladau newydd a fydd yn cwmpasu meddiannu adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru a'u rheoli'n barhaus.

Mae Tabl 1 yn dangos bod siaradwyr Cymraeg yn llai cyffredin mewn aelwydydd sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil nag ym mhob aelwyd.

**Tabl 1. Gallu Cymraeg yn ôl y math o annedd, 2021 [Nodyn 1]**

| Gallu Cymraeg | | Aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr a rhandai | Aelwydydd sy'n byw ym mhob annedd |
|---|---|---|---|
| Gall pob oedolyn yn yr aelwyd siarad Cymraeg | Nifer | 12,700 | 134,000 |
| | Canran | 8% | 10% |
| Gall o leiaf un oedolyn yn yr aelwyd, ond nid pob un ohonynt, siarad Cymraeg | Nifer | 5,600 | 139,900 |
| | Canran | 3% | 10% |
| Ni all unrhyw oedolyn yn yr aelwyd siarad Cymraeg ond mae o leiaf un plentyn rhwng 3 a 15 oed yn siarad Cymraeg | Nifer | 2,200 | 45,800 |
| | Canran | 1% | 3% |
| Ni all unrhyw oedolion na phlant yn yr aelwyd siarad Cymraeg | Nifer | 147,900 | 1,027,400 |
| | Canran | 88% | 76% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021
Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Nodyn 1] Ffigurau wedi’u talgrynnu i’r 100 agosaf. Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau heb eu talgrynnu.

Mae Tabl 2 yn dangos bod 7 adeilad Categori 1 (sef 4%) wedi'u lleoli mewn ardaloedd awdurdod lleol Cymraeg eu hiaith yn bennaf.

Mae Tabl 3 yn dangos bod 42 o adeiladau Categori 2 (sef 9%) wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf. Mae 6,168 o adeiladau Categori 3 (sef 12%) mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf, yn debyg i'r gyfran o'r boblogaeth ar gyfer yr ardaloedd hynny (14%).

**Tabl 2. Adeiladau Categori 1 fesul awdurdod lleol**

| | Awdurdod Lleol | Adeiladau Categori 1 | Poblogaeth |
|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol Saesneg eu Hiaith yn Bennaf** | Caerdydd | 99 | 383,536 |
| | Abertawe | 50 | 246,742 |
| | Casnewydd | 7 | 163,628 |
| | Bro Morgannwg | 6 | 134,733 |
| | Sir y Fflint | 3 | 155,812 |
| | Torfaen | 3 | 93,419 |
| | Wrecsam | 2 | 136,149 |
| | Sir Benfro | 1 | 125,006 |
| | Conwy | 1 | 114,410 |
| | Merthyr Tudful | 1 | 58,593 |
| | Rhondda Cynon Taf | 0 | 241,178 |
| | Caerffili | 0 | 176,437 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 146,743 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 0 | 142,898 |
| | Powys | 0 | 134,439 |
| | Sir Ddinbych | 0 | 97,156 |
| | Sir Fynwy | 0 | 94,572 |
| | Blaenau Gwent | 0 | 67,356 |
| | **Cyfanswm** | **173** | **2,712,807** |
| **Awdurdodau Lleol Cymraeg eu Hiaith yn Bennaf[1]** | Gwynedd | 4 | 119,173 |
| | Ynys Môn | 3 | 69,291 |
| | Sir Gaerfyrddin | 0 | 190,083 |
| | Ceredigion | 0 | 73,050 |
| | **Cyfanswm** | **7** | **451,597** |
| **Pob Awdurdod** | **Cyfanswm** | **180** | **3,164,404** |

Data: Map Data Cymru

StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, 2023

[1] Mae 'awdurdodau lleol Cymraeg eu hiaith yn bennaf' yn cyfeirio at awdurdodau lleol lle mae o leiaf hanner yr aelwydydd yn gartref i o leiaf un oedolyn neu blentyn sy'n siarad Cymraeg

**Tabl 3. Adeiladau Categori 2 a 3 fesul awdurdod lleol**

| | Awdurdod Lleol | Adeiladau Categori 2 | Adeiladau Categori 3 | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol Saesneg eu Hiaith yn Bennaf** | Caerdydd | 136 | 9,671 | 383,536 |
| | Abertawe | 114 | 4,413 | 246,742 |
| | Bro Morgannwg | 62 | 2,458 | 134,733 |
| | Casnewydd | 19 | 3,142 | 163,628 |
| | Rhondda Cynon Taf | 14 | 3,272 | 241,178 |
| | Blaenau Gwent | 13 | 902 | 67,356 |
| | Sir Benfro | 12 | 2,006 | 125,006 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 8 | 2,352 | 142,898 |
| | Sir Ddinbych | 8 | 1,248 | 97,156 |
| | Conwy | 6 | 2,846 | 114,410 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 1,725 | 146,743 |
| | Wrecsam | 3 | 2,316 | 136,149 |
| | Caerffili | 2 | 2,286 | 176,437 |
| | Torfaen | 2 | 1,465 | 93,419 |
| | Sir y Fflint | 2 | 1,160 | 155,812 |
| | Powys | 1 | 1,847 | 134,439 |
| | Merthyr Tudful | 1 | 358 | 58,593 |
| | Sir Fynwy | 0 | 1,195 | 94,572 |
| | **Cyfanswm** | **407** | **44,662** | **2,712,807** |
| **Awdurdodau Lleol Cymraeg eu Hiaith yn Bennaf[2]** | Sir Gaerfyrddin | 28 | 1,767 | 190,083 |
| | Ynys Môn | 7 | 919 | 69,291 |
| | Gwynedd | 4 | 2,025 | 119,173 |
| | Ceredigion | 3 | 1,457 | 73,050 |
| | **Cyfanswm** | **42** | **6,168** | **451,597** |
| **Pob Awdurdod** | **Cyfanswm** | **449** | **50,830** | **3,164,404** |

Data: Map Data Cymru

Stats Cymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, 2023

[2] Mae 'awdurdodau lleol Cymraeg eu hiaith yn bennaf' yn cyfeirio at awdurdodau lleol lle mae o leiaf hanner yr aelwydydd yn gartref i o leiaf un oedolyn neu blentyn sy'n siarad Cymraeg

## Tabl 4. Tai Amlfeddiannaeth fesul awdurdod lleol, 31 Mawrth 2023

| | Awdurdod Lleol | Tai amlfeddiannaeth hysbys yn ardal yr awdurdod lleol | Amcangyfrif o'r holl dai amlfeddiannaeth yn ardal yr awdurdod lleol | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol Saesneg eu Hiaith yn Bennaf** | Caerdydd | 6,418 | 7,000 | 383,536 |
| | Abertawe | 1,863 | 2,100 | 246,742 |
| | Conwy | 723 | 850 | 114,410 |
| | Rhondda Cynon Taf | 567 | 634 | 241,178 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 512 | 550 | 146,743 |
| | Bro Morgannwg | 488 | 520 | 134,733 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 444 | 444 | 142,898 |
| | Casnewydd | 311 | 416 | 163,628 |
| | Wrecsam | 256 | 420 | 136,149 |
| | Powys | 223 | 571 | 134,439 |
| | Sir Ddinbych | 218 | 1,345 | 97,156 |
| | Caerffili | 145 | 160 | 176,437 |
| | Sir Fynwy | 73 | 200 | 94,572 |
| | Sir Benfro | 64 | 90 | 125,006 |
| | Merthyr Tudful | 50 | 50 | 58,593 |
| | Sir y Fflint | 46 | 400 | 155,812 |
| | Blaenau Gwent | 46 | 68 | 67,356 |
| | Torfaen | 38 | 60 | 93,419 |
| | **Cyfanswm** | **12,485** | **15,878** | **2,712,807** |
| **Awdurdodau Lleol Cymraeg eu Hiaith yn Bennaf[3]** | Gwynedd | 808 | 1,000 | 119,173 |
| | Ceredigion | 613 | 690 | 73,050 |
| | Sir Gaerfyrddin | 434 | 434 | 190,083 |

[3] Mae 'awdurdodau lleol Cymraeg eu hiaith yn bennaf' yn cyfeirio at awdurdodau lleol lle mae o leiaf hanner yr aelwydydd yn gartref i o leiaf un oedolyn neu blentyn sy'n siarad Cymraeg

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ynys Môn | 94 | 250 | 69,291 |
| | **Cyfanswm** | **1,949** | **2,374** | **451,597** |
| **Pob Awdurdod** | **Cyfanswm** | **14,434** | **18,252** | **3,164,404** |

Data: Stats Cymru – Tai amlfeddiannaeth yn ôl ardal awdurdod lleol, 2022-23

Stats Cymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, 2023

Mae data o Stats Cymru, tabl 4., yn dangos bod 14% o dai amlfeddiannaeth hysbys ac oddeutu 13% o'r holl dai amlfeddiannaeth yng Nghymru mewn awdurdodau lleol Cymraeg eu hiaith yn bennaf. Mae hyn yn debyg iawn i'r gyfran o'r boblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol Cymraeg eu hiaith yn bennaf (14%).

Mae data gan y SYG, tabl 5., yn dangos bod 15% o'r holl anheddau ac 14% o dai amlfeddiannaeth mewn awdurdodau lleol Cymraeg eu hiaith yn bennaf.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai amlfeddiannaeth yn uwch na ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gyfer tai amlfeddiannaeth oherwydd bod diffiniadau gwahanol o dŷ amlfeddiannaeth yn cael ei ddefnyddio. Yn nata Llywodraeth Cymru, caiff tŷ amlfeddiannaeth ei ddiffinio fel "adeilad neu ran o adeilad a feddiannir gan bersonau sy'n ffurfio o leiaf ddwy aelwyd sy'n rhannu o leiaf un amwynder sylfaenol", tra bo'r SYG yn diffinio tŷ amlfeddiannaeth fel "annedd lle mae o leiaf dri thenant nad ydynt yn perthyn i'w gilydd yn rhentu eu cartref oddi wrth landlord preifat".

**Tabl 5. Tai Amlfeddiannaeth ac Anheddau nad ydynt yn Dai Amlfeddiannaeth fesul awdurdod lleol**

| | Awdurdod Lleol | Tai Amlfeddiannaeth | Anheddau |
|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol Saesneg eu Hiaith yn Bennaf** | Caerdydd | 3,673 | 152,266 |
| | Abertawe | 1,299 | 113,162 |
| | Rhondda Cynon Taf | 356 | 110,394 |
| | Casnewydd | 108 | 69,611 |
| | Wrecsam | 74 | 61,182 |
| | Sir y Fflint | 63 | 70,490 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 43 | 65,509 |
| | Caerffili | 39 | 80,173 |
| | Sir Benfro | 31 | 64,371 |
| | Bro Morgannwg | 29 | 60,580 |
| | Powys | 28 | 66,838 |
| | Torfaen | 28 | 42,728 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 26 | 66,378 |
| | Sir Ddinbych | 26 | 50,300 |
| | Conwy | 24 | 57,960 |
| | Sir Fynwy | 23 | 43,434 |
| | Blaenau Gwent | 17 | 32,847 |
| | Merthyr Tudful | 6 | 27,486 |
| | **Cyfanswm** | **5,893** | **1,235,709** |
| **Awdurdodau Lleol Cymraeg eu Hiaith yn Bennaf[4]** | Gwynedd | 482 | 62,739 |
| | Ceredigion | 414 | 36,330 |
| | Sir Gaerfyrddin | 77 | 89,327 |
| | Ynys Môn | 25 | 36,192 |
| | **Cyfanswm** | **998** | **224,588** |
| **Pob Awdurdod** | **Cyfanswm** | **6,891** | **1,460,297** |

Ffynhonnell: Y SYG - Number of dwellings that are houses in multiple occupation (HMO)

[4] Mae 'awdurdodau lleol Cymraeg eu hiaith yn bennaf' yn cyfeirio at awdurdodau lleol lle mae o leiaf hanner yr aelwydydd yn gartref i o leiaf un oedolyn neu blentyn sy'n siarad Cymraeg

Er na fydd y Bil yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, bydd yn cefnogi'r canlynol:

- Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – Seilwaith a chyd-destun Cymraeg 2050

Bydd y Bil yn cael effaith ar ddeiliad dyletswydd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn ogystal â phreswylwyr. Mae'r cyrff yn y sector cyhoeddus y bydd ein cynigion yn effeithio arnynt oll yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a byddai hyn yn rhoi gofyniad arnynt i hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Bydd personau atebol yn y sector preifat a deiliaid dyletswydd tai amlfeddiannaeth yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau ond ni fyddant yn ddarostyngedig i'r un Safonau o ran y Gymraeg.

Y bwriad yw y bydd pob awdurdod lleol yn rheoleiddiwr ac yn cael ei adnabod fel yr Awdurdod Diogelwch Adeiladau ar gyfer pob adeilad sydd o fewn y cwmpas yn ei ardal. Bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn parhau â'u rôl bresennol fel y rheoleiddiwr ar gyfer materion diogelwch tân. Y bwriad yw i'r gyfundrefn newydd gael ei chymhwyso mewn ffordd mor gyson â phosibl ledled Cymru ac, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y gyfundrefn, rhaid i'r Awdurdod Diogelwch Adeiladau a'r Awdurdod Tân ac Achub eu harfer gyda'r nod o:

- sicrhau a chynnal trefniadau atebolrwydd clir ar gyfer rheoli risgiau i ddiogelwch adeiladau mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth,
- sicrhau y caiff risgiau i ddiogelwch adeiladau mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu rheoli'n effeithiol,
- cefnogi diogelwch preswylwyr adeiladau preswyl amlfeddiannaeth

Bydd y Bil yn sefydlu fframwaith rheoleiddiol ar gyfer adeiladau preswyl amlfeddiannaeth tra byddant wedi'u meddiannu. Bydd y fframwaith hwn yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am gynnal diogelwch preswylwyr a'u hadeiladau yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

1. Bydd y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn diwygio diogelwch adeiladau yng Nghymru yn ystod y cam meddiannu ac yn cwmpasu pob adeiladau preswyl amlfeddiannaeth – hynny yw, adeiladau lle mae dwy annedd neu fwy.

   Bydd y Bil yn sefydlu system reoleiddio gadarn a chydlynol, a fydd yn dwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif ac yn sicrhau y caiff gwybodaeth gywir a chyfredol ei chadw am bob adeilad preswyl amlfeddiannaeth sydd o fewn y cwmpas.

   Bydd yn sefydlu llinellau atebolrwydd clir drwy greu rolau a chyfrifoldebau newydd i'r rhai sy'n berchen ar adeiladau sydd o fewn cwmpas y gyfundrefn newydd ac yn eu rheoli. Bydd y diwygiadau yn canolbwyntio ar lais y preswylydd a bydd ymgysylltu â phreswylwyr wrth wraidd y gyfundrefn newydd.

Ni fydd effeithiau andwyol ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Ni fydd effaith andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed.

Rydym o'r farn y gall y Bil gael rhai effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg gan y bydd rhywfaint o wybodaeth o bosibl ar gael yn Gymraeg.

Bydd y Bil yn rhoi cyfres o ddyletswyddau i Brif Bersonau Atebol / Personau Atebol a bydd ganddynt rolau a chyfrifoldebau penodol o ran rheoli adeiladau a rhannu gwybodaeth â phreswylwyr adeiladau sydd o fewn y cwmpas tra byddant yn eu meddiannu.

Bydd achosion pan mai awdurdod lleol neu landlord cymdeithasol cofrestredig fydd y Prif Berson Atebol ar gyfer adeilad. Yn yr achosion hyn, byddai'r Prif Berson Atebol yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Ni fyddai Prif Bersonau Atebol a Phersonau Atebol yn y sector preifat yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Bersonau Atebol adeiladau Categori 1 gynnal Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr er mwyn ymgynghori â phreswylwyr ynghylch penderfyniadau ar ddiogelwch adeiladau sy'n effeithio arnynt. Rydym yn bwriadu pwysleisio yn y canllawiau pa mor bwysig yw hi fod Prif Bersonau Atebol yn teilwra'r Strategaeth Ymgysylltu â Phreswylwyr fel ei bod yn benodol i'r adeilad ac yn ystyried anghenion a dewisiadau'r preswylwyr. Dylai hyn gynnwys ystyried anghenion cyfathrebu gwahanol, gan gynnwys a oes angen gwybodaeth mewn iaith wahanol ar breswylwyr.

O dan y rheoliadau, bydd yn ofynnol i Bersonau Atebol adeiladau Categori 1 a 2 ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch adeiladau i breswylwyr mewn ffordd hygyrch a dealladwy. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth i breswylwyr ar ffurf sy'n eu galluogi i ddeall cynnwys a nodau'r wybodaeth neu'r ddogfen a roddir, gan gynnwys, pan fo'n rhesymol gwneud hynny, esboniadau o'r iaith dechnegol a ddefnyddir, neu grynodebau mewn iaith glir o ddarpariaethau cymhleth neu dechnegol. Rydym hefyd yn bwriadu pwysleisio yn y canllawiau ei bod yn bwysig bod Personau Atebol yn cyfieithu gwybodaeth am ddiogelwch adeiladau i'r prif ieithoedd a ddefnyddir yn eu hadeilad.

Bydd y rheoliadau yn nodi'r ffordd y gall preswylwyr adeiladau Categori 1 wneud cwynion. Rydym yn disgwyl i'r rheoliadau hyn alluogi preswylwyr i wneud cwynion drwy unrhyw ddull rhesymol ac y caiff ymatebion i gwynion eu darparu i breswylwyr yn ysgrifenedig ac ar ffurf sy'n eu galluogi i ddeall cynnwys yr wybodaeth a roddir.

Ar gyfer cwynion Categori 2 a 3, bydd y rheoliadau yn nodi'r ffordd y gall cwynion perthnasol gael eu gwneud. Rydym yn disgwyl i'r rheoliadau hyn alluogi preswylwyr i wneud cwynion drwy unrhyw ddull rhesymol ac y caiff ymatebion i gwynion eu darparu i'r achwynydd yn ysgrifenedig ac ar ffurf sy'n galluogi'r achwynydd i ddeall cynnwys yr wybodaeth a roddir.

Os gwneir cwyn berthnasol i'r Awdurdod Diogelwch Adeiladau, bydd dyletswydd arno i ymchwilio i'r gŵyn ac ymateb iddi, a byddai'r broses hon yn ddarostyngedig

i Safonau'r Gymraeg. Yn yr un modd, byddai unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan yr Awdurdod Diogelwch Adeiladau yn ddarostyngedig i'r safonau.

Bydd rhai o'r adeiladau sydd o fewn cwmpas ein cynigion yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cofrestredig Cymdeithasol, y mae'r ddau ohonynt yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

Bydd rhai o'r diwygiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar siaradwyr Cymraeg a byddant yn elwa ar y llinellau atebolrwydd clir a sefydlir drwy greu rolau a chyfrifoldebau newydd i'r rhai sy'n berchen ar adeiladau sydd o fewn cwmpas y gyfundrefn newydd ac yn eu rheoli. Bydd y diwygiadau yn canolbwyntio ar lais y preswylydd a bydd ymgysylltu â phreswylwyr wrth wraidd y gyfundrefn newydd.

Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol sy'n mynd ati i oruchwylio a gorfodi materion diogelwch tân yn unol â'r rheoliadau yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Byddai hyn yn ymestyn i'r swyddogaethau a osodir arnynt o dan y Bil.